**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (6)**

**Dydd Iau, 23 Mai 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol  i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ar y Diweddaraf am y Trefniadau i Roi Cyswllt Ffermio ar Waith**

**Eitem 4**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Broffesiynau Iechyd Cymru -**

**Eitem 5**
**Cymeradwyo Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol) 2002 -**
*Ni symudir yr eitem hon.*

**Eitem 6**
**Cymeradwyo'r Cyd-orchymyn ar y Gorchymyn Cyngor Datblygu Garddwriaeth (Diwygio) 2002**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
***NDM1061* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol: gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

Yn cymeradwyo'r drafft o'r Gorchymyn Cyngor Datblygiad Garddwriaethol (Diwygio) 2002 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002.

Cliciwch yma i weld y Gorchymyn drafft - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 7**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
***NDM1060* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cadarnhau ei gred na ddylid gwireddu manteision derbyniadau o'r Cronfeydd Strwythurol ar draul cyllidebau craidd presennol a gyllidir o floc Cymru.

2. Yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Darpariaeth Gwariant Cyhoeddus llawn a chyllid cyfatebol digonol ar gael yn ail ran y rhaglen gyllido strwythurol, a fydd yn dilyn ar ôl i gynlluniau gwariant cyfredol Llywodraeth y DU ddod i ben yn 2003.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)+(3)

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu'r pwyntiau 1 a 2 presennol a rhoi yn eu lle:
Yn ailddatgan yr ymrwymiadau a roddwyd yn y Cytundeb Partneriaeth mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol, ac yn datgan bod Darpariaeth Gwariant Cyhoeddus ac arian cyfatebol digonol ar gael.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd:
Yn gresynu na threfnwyd bod unrhyw arian cyfatebol ar gael yn ychwanegol at Grant Bloc Barnett ar gyfer blynyddoedd cyntaf rhaglen Amcan 1.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt newydd:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i symleiddio ac ystwytho'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am Amcan 1 er mwyn ennyn diddordeb yr holl bartneriaid perthnasol, yn enwedig y gymuned fusnes.

**Eitem 8**
**Dadl Fer: *NDM1054* Janet Davies (Gorllewin De Cymru): Tai Da; Cymru Dda.**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 28 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**